


# Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011 - 2026

**Datganiad Ysgrifenedig**

31 Gorffennaf 2017


CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

gan gynnwys amrediad o gynefinoedd sydd yn cefnogi ystod o rywogaethau. Mae lleoliad y safleoedd hyn wedi ei nodi ar Fap Cyfyngiadau'r Cynllun.

6.5.26 Disgwylir i geisiadau cynllunio sydd yn effeithio ar safleoedd sydd wedi eu rhestru o dan y polisi yma gynnwys Asesiad Ecolegol o'r safle. Bydd yn hanfodol i'r Asesiad gael ei gynnal gan unigolyn cymwys proffesiynol a chynnwys asesiad o unrhyw fesurau lliniaru posib. Bydd Canllawiau Cynllunio Atodol yn cael ei gyhoeddi i roi arweiniad ar y mater.

6.5.27 Yn achos datblygiad a fyddai'n effeithio safle RIGS, os bennir fod y datblygiad yn bwysicach nag arwyddocâd y safle ac nad yw'n ymarferol cynnwys mesurau i leihau'r effaith ar y safle yna bydd yn rhaid i'r datblygwr wneud trefniadau addas ar gyfer cofnodi'r safle gan unigolyn profiadol yn y maes cyn cychwyn ar y gwaith ac wrth i'r gwaith fynd yn ei flaen. Bydd modd cynnwys amodau neu rwymedigaeth cynllunio er mwyn sicrhau hyn.

6.5.28 Ble fo modd profi fod yna angen gorbwysol cymdeithasol/amgylcheddol a/neu economaidd ar gyfer y datblygiad a ble fo'n bosib profi nad oes yna safle arall addas ar gyfer y datblygiad, bydd angen sicrhau fod mesurau lliniaru priodol mewn lle, er enghraifft, sicrhau manteision oddi ar y safle. Gallai gynnwys creu cynefinoedd newydd ar gyfer rhywogaethau neu wella/rheoli cynefinoedd presennol er mwyn sicrhau nad oes yna ddirywiad yn y gwerth cadwraeth natur yr ardal leol.

## DIOGELU A GWELLA ASEDAU TREFTADAETH

6.5.29 **Cefndir**

- Mae'n bwysig bod yr asedau treftadol - sy'n cynnwys archaeoleg a henebion, adeiladau rhestredig, ardaloedd cadwraeth a pharciau, gerddi a thirweddau hanesyddol - yn cael eu diogelu.
- Mae gan Awdurdodau Cynllunio Lleol (ACLl) rôl bwysig i sicrhau diogelwch yr amgylchedd hanesyddol gan sicrhau hefyd ei fod yn addasu ac yn parhau i ymateb i anghenion y byd presennol.

**Cyflwyniad**

6.5.30 Mae dyletswydd ar Gynghorau i ddiogelu a gwella arwyddocâd, cymeriad ac edrychiad amgylchedd diwylliannol a hanesyddol ardal y Cynllun. Cydnabyddir bod yr amgylchedd hanesyddol yn cyfrannu at fwynhad bywyd yn ardal y Cynllun, yn darparu synnwyr unigryw o hunaniaeth ac yn ased economaidd gwerthfawr. Mae'r term 'asedau treftadol' nid yn unig yn cynnwys safleoedd archeolegol, adeiladau hanesyddol, aneddleoedd ynghyd â'r dirwedd hanesyddol ehangach, ond hefyd yr adeiladau, ardaloedd a'r nodweddion hynny sy'n nodedig a phwysig ac a werthfawrogir yn lleol.

6.5.31 Bydd y Cynghorau yn cydweithio gyda phartneriaid a'u budd-ddeiliad i ddiogelu a gwella asedau treftadaeth drwy fentrau treftadaeth ac adfywio. Bydd hyn yn cynnwys diogelu a gwella cymeriad gweledol y drefwedd ynghyd â gosodiad yr anheddiad.

**POLISI STRATEGOL PS 20: DIOGELU A LLE BO'N BERTHNASOL WELLA ASEDAU TREFTADAETH**

**Wrth geisio cefnogi anghenion economaidd a chymdeithasol ehangach ardal y Cynllun, bydd yr Awdurdodau Cynllunio Lleol yn diogelu a lle bo hynny'n berthnasol, yn gwella'r asedau treftadaeth unigryw:**

**Caniateir cynigion a fydd yn diogelu a lle bo'n berthnasol wella'r asedau treftadaeth a ganlyn, eu gosodiad a golygfeydd pwysig i mewn ac allan o'r adeilad /ardal:**

1. **Henebion Rhestredig ac ardaloedd eraill o bwysigrwydd archeolegol (yn unol â Pholisi AT 4).**
2. **Adeiladau Rhestredig a'u cwrtil.**
3. **Ardaloedd Cadwraeth (yn unol â Pholisi AT 1).**
4. **Safleoedd Treftadaeth y Byd - Castell Biwmares a Chastell Caernarfon a Muriau'r Dref (yn unol â Pholisi AT 1).**
5. **Ymgeisydd Safleoedd Treftadaeth y Byd.**
6. **Tirweddau, Parciau a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig (yn unol â Pholisi AT 1).**
7. **Adeiladau o haeddiant pensaernïol/hanesyddol/diwylliannol nad ydynt wedi eu rhestru neu eu diogelu (yn unol â Pholisi AT 3).**

**Polisïau Rheoli Datblygu Cenedlaethol**

6.5.32 Mae Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 a Phennod 6 o Bolisi Cynllunio Cymru yn gosod allan polisïau rheolaeth datblygu a chanllawiau cenedlaethol clir ar gyfer dynodiadau statudol, gan adlewyrchu pwysigrwydd hanesyddol arwyddocaol sydd i ddynodiadau statudol rhyngwladol, cenedlaethol a lleol o'i gymharu â dynodiadau lleol. Mae Tabl 25 yn rhoi rhestr o ddynodiadau rhyngwladol, cenedlaethol a lleol statudol sy'n berthnasol i ardal y Cynllun, a disgrifir goblygiadau'r dynodiad:

6.5.33 Argymhellir bod datblygwyr yn ystyried yr uchod wrth ffurfio cynigion datblygu.

6.5.34 Mae Polisi Strategol PS 20 yn ychwanegu at bolisi a chanllawiau cynllunio cenedlaethol ac yn adlewyrchu'r pwysigrwydd sydd ynghlwm â'r Cynllun tuag at ddiogelu a gwella cyfanrwydd threftadaeth ardal y Cynllun. Mewn rhai sefyllfaoedd, bydd angen am ddiogelu yn gorbwyso budd y datblygiad. Yn aml, bydd ased treftadaeth yn gyfle i gadw gafael ar hunaniaeth leol drwy atgyweirio ac ailddefnyddio asedau treftadaeth a chryfhau hyn drwy barch at nodweddion dylunio lleol, at ddehongli asedau treftadaeth gudd, neu at wella'r amgylchedd naturiol nodweddiadol. Dylid dylunio pob datblygiad newydd mewn ardaloedd hanesyddol fel bod posib diogelu a gwella eu cymeriad arbennig.

6.5.35 Mae Polisi Strategol PS 20 hefyd, lle'n briodol, yn cydnabod pwysigrwydd diogelu gosodiad ased treftadaeth. Gellir gwneud niwed sylweddol i ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol ased os yw datblygiad yn ansensitif o ran dyluniad, graddfa neu leoliad. Yn aml, mae gosodiad ased yn nodwedd hanfodol o'i gymeriad. Efallai bod y gosodiad wedi cael ei gyfyngu i fannau cyfagos ond gall ymestyn am bellter sylweddol. Mae Polisi Strategol PS17 angen i gynigion datblygu ystyried gosodiad unrhyw ased treftadaeth yn llawn a bod datblygwyr yn gallu dangos na fydd y gosodiad yn cael ei niweidio.

6.5.36 Mae Polisi Strategol PS 20 hefyd yn diogelu safleoedd 'Ymgeisydd Safle Treftadaeth y Byd'. Ar hyn o bryd dim ond un safle 'Ymgeisydd' sydd i'w gael sef 'Ymgeisydd Safle Treftadaeth y Byd - Diwydiant Llechi Gogledd Cymru. Er mwyn sicrhau cydnabyddiaeth briodol o ran arwyddocâd y diwydiant llechi i ddatblygiad dynolryw, a'r etifeddiaeth barhaus ddiwylliannol, amgylcheddol a thechnolegol a gyda'r bwriad o uchafu'r cyfraniad presennol ac yn y dyfodol y diwydiant i economi Wynedd, ym Mehefin 2012, ar ran ystod o fudd-ddeiliaid, fe lwyddodd Cyngor Gwynedd i gyflwyno cais i'r Adran Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) er mwyn i'r diwydiant gael ei gynnwys ar restr posib y DU o Safleoedd Treftadaeth y Byd i'w gyflwyno i' Corff Addysgol, Gwyddonol a Diwylliannol y Cenhedloedd Unedig (UNESCO) yn Ionawr 2012. Ar hyn o bryd mae Cyngor Gwynedd a'i bartneriaid yn paratoi'r ddogfennaeth angenrheidiol er mwyn cefnogi enwebiad Safle Treftadaeth y Byd - Diwydiant Llechi. Ni fydd unrhyw ddatblygiad sy'n effeithio ar gyfanrwydd neu ddilysrwydd safle fel 'Ymgeisydd Safle Treftadaeth y Byd' o 'Werth Byd-eang Eithriadol' yn cael ei ganiatáu.

**POLISI AT 1: ARDALOEDD CADWRAETH, SAFLEOEDD TREFTADAETH Y BYD A THIRWEDDAU, PARCIAU A GERDDI HANESYDDOL COFRESTREDIG**

**Bydd angen i gynigion o fewn neu sy'n effeithio ar osodiad a/neu olygfeydd arwyddocaol i mewn neu allan o Ardaloedd Cadwraeth, Safleoedd Treftadaeth y Byd a Thirweddau, Parciau a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig dangosir ar y Map Cyfyngiadau, lle'n briodol, ystyried:**

1. **Gwerthusiadau Cymeriad Ardaloedd Cadwraeth; Cynlluniau Ardaleodd Cadwraeth a Strategaethau Cyflawni mabwysiedig.**
2. **Cynlluniau Rheoli Safleoedd Treftadaeth y Byd.**
3. **Cofrestr o Dirweddau, Parciau a Gerddi o Ddiddordeb Hanesyddol yng Nghymru.**

**Dylai cynigion gael eu cefnogi gan Asesiad Ardrawiad Treftadaeth, lle'n briodol.**

**Eglurhad:**

6.5.37 Mae'r polisi yma yn anelu i sicrhau bod darganfyddiadau dogfennau asesiadau manwl yn cael eu hystyried yn llawn wrth ystyried cynigion datblygu. Bydd pob dogfen asesiad, e.e. Gwerthusiadau Cymeriad Ardaloedd Cadwraeth, Cynlluniau Rheolaeth Safleoedd Treftadaeth y Byd, yn darparu diffiniad clir a chytunedig o'r agweddau sy'n ffurfio cymeriad arbennig, edrychiad a gwerth hanesyddol yr ardal. Bydd y dogfennau manwl yma a chanllawiau cynllunio atodol yn ymwneud â'r dynodiadau yma yn cynorthwyo i gyfrannu i reoli newid mewn ffordd bositif ac yn cario pwysau sylweddol wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio.

6.5.38 Dylai Asesiad Ardrawiad Treftadaeth roi digon o wybodaeth i Awdurdodau Cynllunio Lleol i allu deall ardrawiad cynigion ar arwyddocâd o unrhyw ased treftadaeth yn ddigonol.

6.5.39 Bydd angen Asesiad Ardrawiad Treftadaeth pob tro ar gyfer yr asedau treftadaeth ganlynol:

i. Adeiladau rhestredig a'u cwrtil;
ii. Ceisiadau cynllunio ar gyfer safleoedd o fewn gosodiad adeilad rhestredig;
iii. Ceisiadau cynllunio ar gyfer safleoedd/adeiladau oddi fewn ardaloedd cadwraeth neu oddi fewn eu gosodiad;
iv. Ceisiadau cynllunio ar gyfer safleoedd o fewn gosodiad henebion rhestredig;
v. Ceisiadau cynllunio ar gyfer safleoedd/adeiladau oddi fewn parc neu ardd gofrestredig neu oddi fewn eu gosodiad.
vi. Ceisiadau cydsyniad ar gyfer ardaloedd cadwraeth.

6.5.40 Gall Asesiad Ardrawiad Treftadaeth ffurfio rhan o'r Datganiad Dyluniad a Mynediad ond ni ddylid defnyddio'r 'Datganiad' yn lle 'Asesiad'. Dylai lefel y wybodaeth y darparir bod yn briodol ac yn gyfatebol i arwyddocâd yr ased, ac ardrawiad dichonol y cynigion dan sylw ar yr 'arwyddocâd' hwnnw. Bydd cynnal cyfarfod gyda swyddogion perthnasol yr Awdurdod Cynllunio Lleol cyn cyflwyno cais yn sicrhau bod asedau treftadaeth yn cael eu hadnabod ar y cam cynharaf. Bydd Canllawiau Cynllunio Atodol yn cael ei gyhoeddi i roi mwy o arweiniad ar y mater.

**POLISI AT 2: DATBLYGIAD SY'N GALLUOGI**

**Caniateir datblygiad galluogi sy'n anelu at sicrhau gwarchodaeth a/neu ddefnydd amgen o adeilad rhestredig neu adeilad sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol arwyddocaol i gymeriad ardal cadwraeth neu Dirweddau, Parciau a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig os gellir cydymffurfio gyda'r meini prawf canlynol i gyd:**

**1. Ni fydd dim niwed sylweddol i werthoedd treftadaeth yr ased treftadaeth na'i osodiad.**